Cenn@d
23 Medi 2026
Rhifyn 291
WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

# Ymddeoliad Carys Davies,

## Cydlynydd Rhaglen Dorcas Chwiorydd EBC

Ddechrau mis Mehefin eleni daeth y cyhoeddiad fod Carys Davies yn ymddeol ar ddiwedd yr haf fel Cydlynydd Cynllun Dorcas y Gogledd. Roedd Carys wedi bod yn y swydd am bron i ddeuddeg mlynedd ac yn ystod y cyfnod yma roedd wedi cyflawni llawer. Bu cydweithio hapus a chyflwynwyd sawl cynllun newydd, gyda'r Chwiorydd yn derbyn bendith o'u defnyddio. Roedd yr adnoddau'n benodol ar gyfer y rhai mewn angen, grwpiau ac unigolion, a'r rhain yn rhoi pleser, cwmni a llawer o fendith. Fel sawl cymdeithas ac elusen, roedd misoedd Covid yn rhai heriol ond ni stopiodd y gwaith wrth i Carys a Sarah Morris, Cydlynydd y De, gyflwyno astudiaethau Beiblaidd dros Zoom. Mae'r rhain wedi parhau, a mawr yw ein diolch i Carys am y paratoi manwl a'r cyflwyniadau bendithiol.



Wrth iddi deithio o Henaduriaeth i Henaduriaeth ar draws gogledd Cymru, rhannodd am waith y Chwiorydd ac am yr adnoddau. Roedd yr ymweliadau hyn yn werthfawr, a gallaf eich sicrhau bod Carys wedi mwynhau cwrdd â sawl cynulleidfa ac wedi dod i adnabod llawer o chwiorydd (a brodyr) dros y blynyddoedd. Roedd Carys yn rhan o'r tîm gweithgar fu'n paratoi adnoddau ar gyfer Cynllun Golud; mae'r rhain ar gyfer eglwysi, teuluoedd ac unigolion sydd yn byw gyda dementia.

Wrth i Carys gamu'n ôl o'i swydd a chychwyn pennod newydd, ein dymuniad fel pwyllgor a Chwiorydd ar draws Cymru ydi diolch iddi am ei gwaith clodwiw ac am ei chyfeillgarwch hyfryd ac annwyl.

Wrth edrych yn ôl dros y deuddeg mlynedd, mae un peth yn sicr a hynny ydi fod Carys wedi manteisio ar bob cyfle i ledaenu Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist yn ein plith ac yn ehangach. Diolchwn i Dduw amdani, ac rydym gymaint yn gyfoethocach o fod wedi ei chael gyda ni.

Pleser oedd anrhydeddu Carys dros ginio ddiwedd Gorffennaf a gwneud hynny gyda blodau a rhodd hardd ar ran y Chwiorydd. Roedd y gadwen aur â chwlwm Celtaidd yn symbol i atgoffa Carys o'r cysylltiad ag adnod ein thema eleni.

Wrth i Carys ryfeddu at feddylgarwch y dewis o anrheg, rhannodd Marion Simkin, Llywydd Pwyllgor y Chwiorydd, adnodau roedd hi wedi'u darllen y bore hwnnw*:*

> Bydd yn garedig ac yn ffyddlon bob amser; clyma bethau felly fel cadwyn am dy wddf, ysgrifenna nhw ar lech ar dy galon. Yna byddi'n cael dy dderbyn, ac yn cael enw da gan Dduw a chan bobl eraill. Trystia'r Arglwydd yn llwyr; paid dibynnu ar dy syniadau dy hun. Gwrando arno fe bob amser, a bydd e'n dangos y ffordd i ti. (Diarhebion 3:3–6)

Dymunwn bob bendith i Carys a'i theulu annwyl. Diolch, Carys.

Cofio Dolly Parton
Tudalen 4

Daucanmlwyddiant Capel Saron
Tudalen 7

Gofal ein Gwinllan
Tudalen 8

## Newyddion Cynnal,
## Gwasanaeth Cynghori Eglwysi Cymru

Ar hyn o bryd, mae Cynnal yn darparu cwnsela un-i-un yn rheolaidd i 37 o glerigion, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol ac aelodau o'u teuluoedd. Ar gyfartaledd, drwy gwnsela, grwpiau therapi ac ôl-ofal, mae tua 138 o unigolion yn derbyn cymorth bob mis. Ers sefydlu Cynnal yn 2015, mae bron i 300 o glerigion, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol ac aelodau o'u teuluoedd wedi derbyn cymorth drwy'r gwasanaeth.

Mae gweinidogaethu yn dwyn pwysau emosiynol, ysbrydol a seicolegol unigryw. Mae llawer o weinidogion yn byw gyda'r disgwyliad eu bod bob amser ar gael, yn wydn, ac yn gryf yn ysbrydol. Eto i gyd, y tu ôl i'r llenni mae llawer yn wynebu gorflinder, gorbryder, iselder, trawma, unigedd a straen teuluol.

Isod mae ymateb rhai gweinidogion:

1 "Mae fy sesiynau gyda Cynnal wedi fy achub yn ystod amser mwyaf anodd a thywyll fy mywyd. Yn aml iawn, mae gwybod bod sesiwn ar y gorwel yn ddigon i'm cario drwy'r wythnos."

2 "Heb gymorth a chefnogaeth Cynnal, ni fyddwn yn fyw heddiw, heb sôn am fod yn y weinidogaeth. Rwyf bellach yn ffynnu gyda ffocws a gwydnwch newydd."

3 "Trwy Cynnal, rwyf wedi derbyn iachâd o glwyfau oedd yn ddegawdau oed."

4 "Nid yn unig y bu'r gefnogaeth hon yn help personol mawr i mi, ond mae hefyd yn golygu bod gan un ardal yng Nghymru weinidog hyd heddiw."

5 "Heb CYNNAL, mae'n debyg y byddem wedi dod yn deulu clerigol arall wedi'i dorri. Mae ein plant yn ffynnu, mae fy ngwraig yn ffynnu, ac rwyf finnau yn parhau mewn gweinidogaeth amser llawn."

Mae'r tystiolaethau hyn yn dangos nad unigolion yn unig y mae Cynnal yn eu cefnogi. Mae'n cynnal gweinidogaethau, priodasau, teuluoedd, eglwysi a chymunedau. Mae gweinidogion iach yn adeiladu eglwysi iach. Mae pob gweinidog sy'n gallu parhau mewn gweinidogaeth effeithiol oherwydd ymyrraeth amserol yn parhau i ddarparu gofal bugeiliol, arweinyddiaeth gymunedol, cymorth mewn profedigaeth, gwaith caplaniaeth, cyfrifoldebau diogelu, cyfleoedd gwirfoddoli a gofal ysbrydol i gannoedd o bobl. O ganlyniad, mae buddion Cynnal yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r unigolion sy'n derbyn cymorth ac yn cyrraedd cymunedau ledled Cymru.

**Cysylltu**: www.cynnal.uk

## Cyngerdd coffa Meirion Williams
## Capel Cymraeg y Boro
## 90 Southwark Bridge Rd, Llundain SE1

**Nos Sadwrn, 3 Hydref 2026, am 7pm**
**Er budd hosbis plant Tŷ Hafan**

Mae Capel Cymraeg y Boro yn falch o gynnal **Cyngerdd coffa Meirion Williams**.

Ganed Meirion Williams yn Nyffryn Ardudwy, Gwynedd, yn 1901. Ond yn Llundain y bu'n gweithio fel pianydd, organydd a chyfansoddwr. Bu'n cyfeilio i'r tenor David Lloyd mewn recordiad o ganeuon Cymreig i gwmni Decca, ac mae ei ganeuon poblogaidd wedi'u recordio gan Bryn Terfel. Bu farw ar 4 Hydref 1976 ac fe'i claddwyd ym mynwent eglwys y plwyf Llanenddwyn, ger Dyffryn Ardudwy. Bydd y cyngerdd felly'n nodi hanner can mlynedd ers ei farwolaeth.

Bydd y cyngerdd yn cynnwys ei 'Missa Cambrensis', sydd erioed wedi'i gyhoeddi. Credir iddo fod ar goll ond daeth i'r golwg yn ddiweddar. Ysgrifennwyd y gwaith yn 1974 ar gyfer cynulleidfa eglwys Bened Sant yn Llundain, cartref yr Anglicaniaid Cymreig, ger Eglwys Gadeiriol St Paul. Côr Cymreig Capel y Boro fydd yn perfformio'r gwaith.

Bydd Sera Baines (soprano) o Lanelidan, Clwyd, a Steffan Lloyd Owen (baswr/bariton) o sir Fôn, enillydd cystadleuaeth Opera Paris yn 2025, yn cymryd rhan yn y cyngerdd, a'r cyfeilydd fydd Aeron Preston.

Hefyd, bydd teyrnged i'r bardd a'r awdur Caradog Prichard a oedd yn ffrind mynwesol i Meirion Williams. Bydd perfformiad o gân 'Y Llyn' gyda geiriau gan Caradog Prichard a darlleniad allan o *Un Nos Ola Leuad* gan yr actor Glyn Pritchard.

Yn ogystal, cyflwynir cerddoriaeth oedd yn boblogaidd iawn yn ystod yr ugeinfed ganrif gan Ryan Davies ac Ivor Novello, a hynny 75 mlynedd ers marwolaeth Ivor Novello.

Bydd y cyngedd hefyd yn cynnwys perfformiad arbennig o Gonsierto i'r Trwmped gan Grace Williams gan Alice Newbould o'r Wyddgrug. Roedd Grace Williams yn astudio gyda Vaughan Williams yn y Coleg Cerdd Brenhinol yr un pryd ag yr oedd Meirion Williams yn astudio'r piano yn yr Academi Gerdd Frenhinol, ac mae'n bur debyg eu bod yn adnabod ei gilydd. Bu farw Grace Williams gwta bedwar mis ar ôl Meirion Williams yn 1977 a deufis cyn marwolaeth Ryan Davies.

Tocynnau ar gael trwy: https://wegottickets.com/event/693992/

(Mae'r tocyn yn cynnwys lluniaeth yn y neuadd isaf)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â: John Jones, 07770 268169, johnjones.calan@gmail.com

## Pererindod Maengwyn, Machynlleth



Mae Capel Ann Griffiihs yn Nolanog yn dathlu dau gant a hanner o flynyddoedd ers geni'r emynyddes, ac felly penderfynodd aelodau a chyfeillion Maengwyn ymweld â'r capel ar bnawn Sul hynod o braf, sef 28 Mehefin.

Croesawyd 30 o'r aelodau a chyfeillion yn gynnes i'r capel gan Nerys Jones a Delyth Francis. Yna, cawsom wrando ar Delyth yn rhoi hanes diddorol cefndir y capel a chael ar ddeall y bu bron i'r ardal, gan gynnwys y capel, gael ei boddi cyn i'r cwmni droi eu golygon tuag at Dryweryn.

Canwyd tri emyn o waith Ann Griffiths: dau gan y gynulleidfa ac un gan Alwyn Evans yn swynol a theimladwy, yn ôl ei arfer. Yr organydd oedd Nerys Jones.

Gwnaed y diolchiadau a chyflwynwyd gweddi bwrpasol iawn gan Mrs Dorothy Pugh ac fe gyflwynwyd cyfraniad ar ran Maengwyn i Nerys a Delyth. I ddilyn cawsom baned a bisgedi wedi'u paratoi gan Nerys a Delyth.

Wedi'r oedfa aeth nifer o'r aelodau i ymweld â bedd Ann Griffiths ym mynwent Llanfihangel.

Cawsom bryd o fwyd bendigedig ar ein ffordd adre ym mwyty'r Dyffryn, y Foel, ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

## Penodi arweinydd bugeiliol

Rydym yn falch iawn o groesawu Mrs Elen Worman sydd wedi ei phenodi'n Arweinydd Cenhadol dros ardal Bro Ddyfi, Dyffryn Hafren a Henaduriaeth Trefaldwyn Uchaf.

Mae Mrs Worman esioes wedi dechrau ar ei gwaith ac yn egnïol iawn yn ymweld â'r aelodau yn eu cartrefi ac yn arwain gwasanaethau. Mae'r chwe chapel sydd dan ei gofal yn cynnwys Maengwyn, Machynlleth; Bethel, y Drenewydd; Heol China, Llanidloes; y Graig, Penffordd-las; Ebeneser, Llawr-y-glyn; a'r Bont, Llanbryn-mair. Pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

*Glenys Evans*

# Diogelu:
## Newidiadau Pwysig

Neges bwysig oddi wrth y Panel Diogelu Cydenwadol sy'n berthnasol i bob eglwys sy'n cynnal gweithgareddau plant neu ieuenctid.

**Newidiadau i'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir (Regulated Activity) gyda phlant o 1 Medi 2026**

O 1 Medi 2026 ymlaen, bydd gweithwyr neu wirfoddolwyr sy'n addysgu, yn goruchwylio, yn arwain neu'n gofalu am blant yn aml neu'n ddwys (yn wythnosol, bedair gwaith neu fwy mewn 30 diwrnod, neu dros nos rhwng 2am a 6am) mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant, p'un a ydynt yn cael eu goruchwylio ai peidio.

Ni fydd y rheolau yn newid ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn gweithgaredd a reoleiddir oherwydd eu bod yn darparu gofal personol. Bydd y rhai sy'n gweithio'n anaml yn aros mewn gweithgaredd nas rheoleiddir, oni bai eu bod yn gwneud gofal personol gyda phlant.

Mae'r Panel Diogelwch yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd eglwysi'n cydymffurfio â'r newid hwn, ond rydym yn annog eglwysi i ddarllen y daflen berthnasol am ragor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am sut y gallai hyn effeithio ar eich eglwys:

https://panel.cymru/cy/newyddion






Mae marwolaeth y gantores Dolly Parton yn 80 oed wedi cael sylw byd-eang. Yn berson oedd wastad â gwên ar ei hwyneb, roedd caneuon Dolly yn rhai pwerus a didwyll. Roedd hi'n ymfalchïo yn ei magwraeth dlawd a Christnogol gadarn. Er iddi droi cefn ar grefydd ffurfiol, dywedodd ei bod hi'n diolch i Dduw bob bore, gan ofyn am arweiniad drwy'r dydd. Roedd hi hefyd yn ymfalchïo yn ei thras Gymreig.

## Geni mewn tlodi i deulu crefyddol

Cafodd Dolly Rebecca Parton ei geni ar 19 Ionawr 1946, y pedwerydd o 12 o blant, mewn caban un-ystafell ger tre fechan Pittman Centre yng nghefn gwlad Tennessee. Symudodd y teulu wedyn i fyw ar fferm fechan gan grafu byw yn tyfu tybaco. Roedd ei thad-cu Jake Robert Owens yn weinidog yn y capel Pentecostaidd lleol ac yno dechreuodd Dolly ganu pan yn ferch fach. Cafodd gitâr gan ei hewythr pan oedd hi'n wyth mlwydd oed. A dyna ddechrau'r daith i fod yn seren fyd-enwog wnaeth gyfansoddi 3,000 o ganeuon a gwerthu 100 miliwn o recordiau, yn ogystal ag actio a sefydlu busnesau llwyddiannus. Hi oedd 'brenhines y canu gwlad.'

## Y cefndir Cymreig

Mae ei chân 'Coat of Many Colours' yn sôn am y tlodi cynnar, a'i mam yn gwneud cot iddi allan o glytiau amryliw, wrth adrodd stori Joseff a'r siaced fraith. Roedd hi'n falch iawn o'i chot newydd, ond yn yr ysgol dechreuodd y plant eraill chwerthin ar ei phen. Flynyddoedd wedyn fe ganodd Dolly:

> I know we had no money
> But I was rich as I could be
> In my coat of many colors
> My momma made for me.

Wrth ymfalchïo yn ei magwraeth, roedd hi hefyd yn ymfalchïo bod ei mam, Avie Lee Owens, o dras Gymreig. O'r llwyfan mewn cyngerdd yng Nghaerdydd yn 2008 cyhoeddodd: 'Mae pobl fy mam, yr Owens, yn dod o Gymru. Rydw i wedi bod yma deirgwaith ac mae bob amser yn deimlad da, yn naws deuluol.' Ychwanegodd y byddai'n hoffi dysgu Cymraeg.

## Ffydd gynhwysol

Dywedodd Dolly Parton ei bod hi'n hynod falch o'i chefndir mewn capel, a'i bod hi'n gyfarwydd iawn â straeon y Beibl. Pan oedd yn blentyn arferai fynd i'r ysgol Sul a chyrddau gweddi ar y Sul ac ar noson waith. Cafodd ei magu i ddeall bod Duw yn gwneud unrhyw beth yn bosibl, a bod Iesu'n ei charu hi. Er nad yw'n arddel unrhyw ddogma crefyddol, meddai, mae'r hyn ddysgodd ym more oes yn ei chaneuon ac yn ei chalon, ac yn ei chadw hi'n wylaidd. Dywedodd fod ei ffydd yn un gynhwysol, gyda'r pwyslais ar gariad a bod yn 'galon-agored'. Mewn cyfweliad yn y cylchgrawn *Marie Claire* yn 2020, dywedodd: 'Bob bore, cyn i mi wneud dim arall, rwy'n diolch i Dduw am y noson ac yn gofyn iddo fendithio'r dydd ... i'm tywys, i'm harwain i.'

## Duw'n gyd-awdur ei chaneuon

Mae Duw gyda hi wrth gyfansoddi ei chaneuon, meddai. 'Duw yw fy nghyd-awdur a'm llywydd, oherwydd rwy'n teimlo mai oddi wrtho rwy'n tynnu fy nerth. Wrth weithio rwy'n gadael fy hun yn agored i Dduw. Mae gan bob un ohonom ein doniau. Os nad ydym yn eu defnyddio fel y dylem ni, rydym yn cadw'n golau o dan ddysgl, fel y dywedodd Iesu. Os nad ydych chi'n gadael i'r golau ddisgleirio, bydd yn diffodd. Gan i mi gael y rhodd yma gan Dduw, rwy eisiau ysgrifennu, creu, lledaenu llawenydd a lledaenu neges. Ac rwy eisiau bod yno i bobl eraill.'

## Ffydd ymarferol

Roedd Dolly Parton yn rhedeg nifer o elusennau, gan gynnwys yr 'Imagination Library' sydd wedi dosbarthu dros 120 miliwn o lyfrau i blant ar draws y byd. Yn 2019, fe gyfrannodd $1m tuag at y gwaith o ddatblygu brechlyn Covid-19. Pan gafwyd tanau gwyllt ar fynyddoedd Tennessee yn 2019, fe wnaeth hi greu cronfa o $9m ar gyfer y teuluoedd oedd wedi dioddef oherwydd y tanau. Ac yn sgil Corwynt Helene ddwy flynedd yn ôl fe roddodd $2m mewn cymorth.

## Teyrngedau

Ar ôl i Dolly Parton golli ei brwydr gyda chancr, dywedodd ei theulu ei bod hi bellach 'yn ddiogel ym mreichiau Iesu'. Talwyd teyrngedau di-ri gan fawrion y byd adloniant. Dywedodd Taylor Swift ei bod hi'n berson hynod galon-feddal, ond ag asgwrn cefn fel dur pan oedd angen sefyll dros hawliau. 'Wnes i erioed adnabod neb fel hi,' meddai Jane Fonda. 'Roedd hi wastad yn gwybod beth i'w wneud, beth i'w ddweud a gwneud pethau'n iawn.' Yr unig nodyn sur yw'r modd y mae Donald Trump wedi ceisio manteisio ar farwolaeth Dolly Parton trwy honni ei fod fel 'colli un o'i deulu', a gorchymyn hedfan baneri ar draws yr Unol Daleithiau ar hanner y mast. Yn ystod ei bywyd fe wnaeth Dolly wrthod ddwywaith dderbyn y 'Presidential Medal of Honour' gan yr Arlywydd Trump. Yr ymateb i'r fath ragrith ar draws y cyfryngau cymdeithasol yw: 'We need less Donalds and more Dollys.' Amen i hynna!

*Alun Lenny, gyda diolch i'r Tyst*

# Troi am adre

Bu'n Awst eisteddfodol i lawer – yn fynychwyr, yn wylwyr ac yn wrandawyr. A chystal inni felly ystyried un o'n trysorau cenedlaethol, sydd ynghlwm wrth ein crefydd, sef ein hiaith, er bod mwyafrif pobl Cymru am anwybyddu'r cysylltiad erbyn hyn.

Rywbryd yn ystod y misoedd diwethaf mi ddarllenais adroddiad diddorol yn *Cenn@d* lle roedd criw wedi dod at ei gilydd i ryw bwrpas ac wedi cael paned cyn 'troi am adre'.



Ia, dywediad arbennig – troi am adre. Mae mwy i iaith na geiriau! Weithie, ar ôl i rywun fod yn ymweld, mi ddywed: 'Wel, mae'n bryd i mi ei throi hi.' O ble y daeth y dywediad, wn i ddim, ond mae'n debyg fod troi – yn gorfforol felly – yn rhywbeth y byddwn oll yn ei wneud cyn gadael un lle a chychwyn am le arall, fel codi o'ch cadair a'i throi hi am y drws. Ac o'i throi hi am adre, mae dywediad arall yn dod i'r meddwl, sef 'cyrraedd adre', sy bellach bron yn idiom Gymraeg. Mae'r ymadrodd yn fy atgoffa o un o straeon mawr ein hardal ni yma, am rywbeth na 'chyrhaeddodd adre'! Yn bwrpasol i *Cenn@d*? Yn werth ei hadrodd beth bynnag. Felly dyma hi.

Flynyddoedd yn ôl un o gymeriadau mawr y fro hon oedd John Williams, Jac Sarnau, un y mae y straeon amdano wedi byw ymhell wedi iddo ef ein gadael. Canlyn injan ddyrnu y byddai yn yr hydref a'r gaeaf, ac roedd o'n enwog am ei sylwadau un llinell. A dyma'r enwocaf ohonynt.

Unwaith, rywbryd yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf, roedd o a'i fêt yn dyrnu ar fferm blaenor pwysig yn yr ardal, lle roedd cadw dyletswydd yn digwydd, sef darlleniad a gair o weddi oedd yn cael ei gynnal bob bore mewn llawer lle cyn dechrau ar waith y dydd. Felly fore'r dyrnu ar y fferm arbennig hon. Pawb yn y gegin: y teulu, y gweision a'r morynion, a Jac a'i fêt, oedd wedi aros yno dros nos ar ôl gosod y dyrnwr y noson gynt. O oedd, roedd y gwasanaeth boreol yn bwysig diwrnod dyrnu neu ddim, ond 'time is money' oedd hi wedi'r cyfan. Felly, gweddi fer, swta iawn, a gafwyd gan y perchennog y bore hwnnw, a gorffen rhywbeth yn debyg i hyn: 'Does dim rhaid i ni, O! Arglwydd, amlhau gwag eiriau ger dy fron: "Ni fethodd gweddi daer erioed / â chyrraedd hyd y nef". Amen.'

Yn y tawelwch a ddilynodd, clywyd sibrydiad Jac wrth ei fêt gan bawb oedd yno: 'Diawch, aeth honna ddim trwy'r siling, heb sôn am gyrraedd y nefoedd!' Ie, beirniadaeth ddeifiol, un frawddeg, o'r weddi dila. Oedd yn brawf hefyd, wrth gwrs, fod yr hen Jac yn gwrando!

Yn ôl at yr iaith. Ydych chi'n cael eich blino gan y cyfieithu gwirion 'ma sy'n digwydd ar idiomau a dywediadau Saesneg yn hytrach na defnyddio rhai Cymraeg cynhenid: hwyrach ymlaen, gweld fy hun allan, rhoi fy nillad ymlaen neu, waeth fyth, rhoi fy nillad ar!

Dyna ddigon! Yn hytrach, dyma gyfeirio at frawddeg arall sy wedi aros yn fy nghof ers i mi ei darllen mewn ysgrif am eisteddfod Llandderfel. Hwyrach yn wir imi gyfeirio ati o'r blaen, ond mae'n addas yma hefyd, a'r troi am adre yn bwysig ynddi: Tecwyn Lloyd yn disgrifio'r gynulleidfa yn gwasgaru ar ddiwedd un o steddfode Llandderfel ac yn troi am adre. Meddai Tecwyn: 'Pawb yn mynd adre, pawb dros ei fynydd ei hun.' Ac o dynnu'r frawddeg o'i chyd-destun, dyna un o'r disgrifiadau un frawddeg gorau glywais i erioed am daith bywyd yn y byd. Yn dwyn i gof hefyd linellau o emyn Emrys: 'Arglwydd, dal ni nes mynd adref, / nid yw'r llwybyr eto'n faith'.

Falle'n wir mai'r hyn sy wedi ysgogi'r meddyliau hyn am ddywediadau a geiriau yw darlith glywais i'n ddiweddar gan Eryl Owain, Penmachno, am yr Esgob William Morgan, un wnaeth gymaint i warchod ysblander ein hiaith. Gwnaeth imi feddwl am 'troi am adre', 'ei throi hi', 'cyrraedd adre', 'dal fi nes mynd adre', 'pawb dros ei fynydd ei hun', 'mynd tua thre' – pob un dywediad neu idiom yn sôn am deithio, am fynd o un lle i'r llall. A ninnau ar ein taith trwy'r byd yn cael cymorth idiomau a dywediadau cwbwl arbennig yr iaith Gymraeg i ddweud hyn.




Ie'r Gymraeg, sy'n waddol mor odidog inni i gyd. Mawr yw ein braint. Ac i bwy mae'r diolch? Yr Esgob ei hun yn sicr, yr orchest o gyfieithu'r Beibl yn siŵr, wedi penderfyniad y Frenhines Elisabeth I; ysgolion teithiol Griffith Jones, Llanddowror, yn bendant; ysgolion Sul Thomas Charles hefyd, does dim dwywaith. A'r capeli Cymraeg ar hyd y cenedlaethau, yn arbennig mewn ardaloedd wedi eu Seisnigeiddio, a phregethu mewn iaith safonol oedd yn suddo i mewn i ymwybod y gwrandawyr, a'r emynau y gallem oll eu dysgu ar ein cof. Heb y rhain oll ni fyddai iaith yn bod i'w gwarchod a'i dysgu yn ein hysgolion Cymraeg presennol. Os mai gwarchod eneidiau oedd eu pwrpas, yn bendant mae'r cyfan wedi gwarchod yr iaith.

Ac alla i ddim deall y bobol sy'n Gymry pybyr ac wedi troi cefn ar gapeli, a hynny yn eu degau a'u cannoedd. Mi dd'weda i hyn: pe bawn i'r anffyddiwr mwyaf mi ddaliwn i fynd i'r capel tase ond o barch, ac i ddal i gynnal y gyfundrefn wych sy wedi sicrhau mod i'n berchen ar y Gymraeg heddiw.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 36

## Ymson y wraig yn Endor

Teimlais ei bryder cyn imi weld ei wyneb cuddiedig. Newidiodd ei lais hefyd fel na allwn ei adnabod. Roedd pwys ei galon yn rhy drwm i'w anwybyddu. Gwyddwn ei fod wedi dod i mewn i fy nghartref liw nos i gael ei oleuo.

Chwarddais yn ei wyneb! Ro'n i am iddo ddeall mor annoeth ydoedd yn dod ataf. Wrth edrych i fyw ei lygaid, sylwais ar yr angen dybryd ynddo a'r ysfa am gael gweld yfory. Ond onid oedd hwn yn dal i wrthod yr Un sy'n dal pob yfory?

Yna, gofynnodd imi alw ar enaid Samuel. Ac ymhen munud neu ddwy, fe'i gwelais, yn codi o'r ddaear ac yn dod atom i'r ystafell.

Daeth yr ymwybyddiaeth imi wedyn mai Saul oedd wedi dod i fy nghartref a chwarae'r tric hwn arnaf. Gwaeddais arno'n uchel i'w esbonio'i hun; ond doedd dim rhaid iddo ateb, oherwydd roedd yn amlwg mai cuddio rhagddo'i hun yr oedd e.

Siaradodd ysbryd Samuel wedyn, a'i lais yn ysgwyd y muriau. Er fy mod i wedi arfer codi eneidiau, doeddwn i byth yn siŵr beth fyddai'n digwydd. Y tro yma, doedd dim trysorau newydd ymhlyg yn y geiriau, dim twnnel i gropian drwyddo, na gobaith i wreiddio ynddo. Trawyd Saul gan y geiriau: daeth clatsien ar ôl clatsien, a chlusten wedyn, nes ei fod yn syrthio i'r llawr.

Deallais innau, drwy'r cernodiau cytseiniol a ddaeth drwy Samuel, sut yr oedd Saul wedi troi ei gefn ar Dduw. Collodd bopeth – ei deyrnas, ei urddas, a'i dawelwch meddwl. Ac yna daeth y trawiad olaf mai yfory fyddai'r heddiw olaf iddo.

A'i wyneb ym mhridd y llawr, a'i gorff truenus yn ei blyg, fe ddaeth yn amlwg fod Saul yn tynnu tua'r terfyn. Doedd dim ar ôl i'w gynnal, neb yn gafael yn ei freichiau a'i godi i fyny. Nid fy lle i oedd deall pam na fyddai'n gofyn am faddeuant, pam na fyddai'n codi ei olygon ac yn edrych ar ei Dduw. Wyddwn i ddim oll am ei resymeg, ond fe allwn weld nad oedd owns o faeth ar ôl ynddo. Felly, penderfynais wneud yr hyn a allwn. Pobais fara, a pharatoi pryd o fwyd yn hytrach na phryd o dafod. Hwn fydddai'r olaf, gwyddwn hynny.

Roedd Saul eisiau sicrwydd, ond fe grwydrodd yn rhy bell oddi wrth y Golau mwya'n bod. O flaen fy llygaid, gwelais y gagendor mawr rhwng dyn a Duw: Duw yn disgwyl i ddyn droi ato, a dyn yn ei blyg yn y budreddi. A'r noson honno, fe ddysgais rywbeth nad oeddwn eto wedi'i lawn sylweddoli: nad y perygl mwyaf yw fod nefoedd yn anweledig, ond bod y person sy'n dyheu am nefoedd yn methu edrych ar ei Dduw.

### Holi

- Roedd Saul yn ysig, ond nid yn ysu am Dduw. Ydyn ni hefyd weithiau'n ceisio atebion neu'n ceisio rheoli cwrs bywyd heb alw ar arweiniad Duw?
- Syrthiodd Saul yn gorfforol ac yn feddyliol, ond nid mewn edifeirwch. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn doredig a throi'n ddiffuant tuag at Dduw? Pa gamau y dylai Saul fod wedi'u cymryd i fynd ag e 'nôl at Dduw?
- Ciliodd Saul ymhell cyn ymweld â'r wraig yn Endor. Pa rybuddion sydd yn y stori am y perygl o gilio'n raddol, yn ysbrydol ac yn ymarferol? Pa arferion allwn ni eu datblygu er mwyn closio at Dduw?
- Ni allodd y wraig wneud dim i newid ei ffawd; serch hynny, gwnaeth yr hyn a allodd i helpu Saul. Pa weithredoedd o gariad a thosturi all fod o gymorth i'r colledig yn ein cymunedau heddiw?
- Mae pwysigrwydd y neges fod angen inni ddal ati yn ein hymlyniad at Dduw yn amlwg. Sut y gall yr egwyddor siapio ein hymatebion i ansicrwydd ein hoes, i weddïau heb atebion, i benderfyniadau anodd, ac ofn y dyfodol?

### Gweddi

Pan ddaw ofn fel cwmwl drosom,
tyrd â'th enfys i'n lliwio.
Pan fydd tywyllwch y nos yn sibrwd,
dyro ffydd i oleuo ystafell ein
meddyliau.
Pan fyddwn yn dyheu am dy lais,
boed inni glywed symffoni dy gariad
yn atseinio ynom.
Pan fo yfory yn bell,
dere Di â ni i'th gôl.
Pan fo pwysau byw yn ein blino,
llifeiria dy egni dwyfol drosom.
Gofynnwn, diolchwn,
a rhoddwn glod i Ti. Amen.

*Siân Meinir*

BBC radio cymru S4C

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 27 Medi 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 27 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Marc Jon Williams, Caerdydd

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 27 Medi, am 12:00yp**
Oedfa o dan arweiniad Hefin Jones, Caerdydd

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 27 Medi, am 7.30yh**
Bydd Rhodri Gomer yn edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn Meirionnydd 2027. Daw y canu o Ganolfan MOMA, Machynlleth.

# ‘Eglwys Dduw yr hon sydd yn Saron’ – dathlu daucanmlwyddiant Capel Saron, ger Dinbych

Roedd 7 Rhagfyr 1826 yn ddydd o lawenydd mawr yn ardal Saron, ger Dinbych. Dyna ddyddiad agor y capel, sydd wedi sefyll ar groesffordd y pentref am ddwy ganrif . Mae’n amlwg nad oedd gan drigolion y cyfnod hwnnw ofn tywydd mawr, oherwydd trefnwyd i gynnal cyfres o oedfaon pregethu a gwahoddwyd pump o bregethwyr i wasanaethu.

Prin iawn yw’r deunydd sydd ar gael i baratoi hanes manwl. Eto, ceir sicrwydd pendant fod achos i’r Arglwydd Iesu Grist yn ffynnu yn y fro cyn penderfynu adeiladu’r capel. Y ddolen gyswllt fwyaf gwerthfawr a diddorol rhyngom a’r gorffennol yw’r llyfr bedyddiadau, y ‘Saron Chapel Baptism register’. Er mai penawdau Saesneg sydd i’r colofnau yn y llyfr, mae’n sicr mai cael eu bedyddio yn iaith eu mamau wnaeth plant bach Saron. Ond hyd at 1964 yn yr iaith Saesneg y cofnodwyd eu bedyddiadau.

Dyddiad y bedydd cyntaf a gaiff ei gofnodi yw Mawrth 28ain 1823, pryd y bedyddiwyd Margaret, plentyn William a Catherine Williams, Ty’n Ffrith, gan y Parch. Thomas Lloyd, Dinbych. Dengys y cofnodion i’r Parch. Moses Parry, Dinbych, hefyd weinyddu’r sacrament o fedydd nifer o weithiau yn y capel ac mewn cartrefi. Diddorol yw sylwi ar rai enwau eraill a fyddai’n dod yn gyson yma i wasanaethu, yn eu plith y Parchedigion John Davies, Tŷ Mawr; Robert Roberts, Prion; John Davies, Nercwys; William Hughes, y Groes, ac Isaac Jones, Nantglyn.

Yn y man daeth gweinidog ordeiniedig i fyw yn ardal Saron, sef y Parch. Jacob Jones, Acer Las. Er na fu erioed yn weinidog swyddogol yma, dros gyfnod o ugain mlynedd gwelir iddo gyflwyno drwy fedydd nifer dda o blant Saron i gorlan y Bugail Da.

Y gweinidog cyntaf a alwyd i fugeilio’r eglwys oedd y Parch. John Edward Williams. Dechreuodd ar ei waith yn y flwyddyn 1896 ac arhosodd am oddeutu pedair blynedd. Ei olynydd oedd y Parch. Owen Gwilym Griffith, a fu’n weinidog gofalus a chydwybodol ar eglwysi Saron a Pheniel am 37 mlynedd. Ysgrifennodd ei anerchiad olaf yn adroddiad 1943 a gallai dystio fod yr eglwys wedi datblygu a chasglu nerth yng nghwrs y blynyddoedd. Cofnodir iddo fedyddio dros gant o blant, ac  yn ystod ei gyfnod ef yr adeiladwyd y festri a’r Tŷ Capel.

O’u cymharu â’r Parch. O. G. Griffith, am gyfnod gweddol fyr y bu pob gweinidog a’i dilynodd yn gweinidogaethu. Sefydlwyd y Parch G. Brynle Jones yn weinidog yn 1945 a bu yma am bum mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn prynwyd Glasfryn fel tŷ gweinidog i eglwysi Saron a Pheniel. Ymadawodd Mr Jones am fryniau Maldwyn a chafwyd cyfnod di-fugail yn dilyn hynny.

Lluniwyd gofalaeth o dair eglwys, sef Saron, Peniel a Prion, ac yn 1955 galwyd gŵr ifanc a fagwyd yn Lloegr yn weinidog arnynt, sef y Parch. W. O. Jones. Ymroddodd â brwdfrydedd i’w waith, ond ar derfyn pedair blynedd symudodd i wasanaethu eglwys Saesneg yn Moreton. Ei olynydd oedd y Parch. E. Goronwy Williams, gweinidog profiadol a thad John Tegla Williams, oedd yn unawdydd yn y Gymanfa Ganu




yma 50 mlynedd yn ôl. Roedd y Parch. Goronwy Williams wrth ei fodd mewn cylch amaethyddol a chwith iawn oedd ei ollwng yn ôl i Arfon ymhen pedair blynedd.

Yn 1965 sefydlwyd y Parch. Nefydd Hughes Cadfan yn weinidog ar yr ofalaeth. Brodor o Batagonia oedd ef, gŵr o ddiwylliant eang ac un oedd yn hoff gan bawb. Ymddeolodd yntau ddiwedd 1969.

Yn dilyn hynny ffurfiwyd gofalaeth o chwe eglwys pan ychwanegwyd Saron, Peniel a Prion at eglwysi’r Glyn, Pentref (Llanrhaeadr) a’r Wern, dan weinidogaeth y Parch. Arthur Jones. Braint oedd cael y gŵr hynod hwn yn weinidog arnom. Rhoddai lawer o sylw i’r plant, gan eu trwytho ar gyfer yr arholiad sirol, eu paratoi ar gyfer Gŵyl yr Ysgol Sul, gwasanaeth diolchgarwch, drama’r Nadolig a chanu carolau i gleifion ysbyty lleol.

Pan ymddeolodd yn 1985, newidiwyd yr ofalaeth eto, a daeth Saron a Pheniel dan weinidogaeth y Parch. W. H. Pritchard, gweinidog Capel Mawr a Seion, Dinbych. Mawr fu ei ofal drosom am 12 mlynedd. Yn 2000 daeth y Parch. Hugh Pritchard yn weinidog arnom, yntau hefyd yn ofalus iawn o’i braidd yma.

Cafwyd newid eto yn 2010 pan ymunwyd â Gofalaeth Bro Aled dan weinidogaeth y Parch. Meirion Morris. Fe’i holynwyd yn 2011 gan y Parch. Aneurin Owen, ac yn 2016 gan y Parch. Ddr Rhodri Glyn, a fu’n gweinidogaethu yma am saith mlynedd. Er ein bod yn ddi-fugail ar hyn o bryd, rydyn ni’n ddiolchgar i’r rhai sy’n ymdrechu i sicrhau y cynhelir gwasanaeth o addoliad yn rheolaidd yn Saron.

Ychydig fu nifer y blaenoriaid yn Saron, ond hanner can mlynedd ôl etholwyd y ferch gyntaf yn flaenores, sef Mrs Dilys Vaughan. Yr un flwyddyn etholwyd Mr Glyn Davies, sydd hefyd wedi gweithredu fel arweinydd y gân. Roedd yn rhaid aros ugain mlynedd arall nes yr etholwyd Mrs Nesta Evans a Mr Emyr Rees. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, cefais innau fy ordeinio’n flaenores, ac rydw i’n ddiolchgar i aelodau Saron am roi eu hymddiriedaeth ynof. Fy ngweddi yw:

O anfon di yr Ysbryd Glân
yn enw Iesu mawr,
a’i weithrediadau megis tân
O deued ef i lawr.

*Gwenan Dodd*

# Cyhoeddi Cyfrol Olaf *Gofal ein Gwinllan*






Mae'r bedwaredd gyfrol, a'r olaf, mewn cyfres sy'n archwilio cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i lenyddiaeth, hanes a diwylliant newydd ei chyhoeddi gan wasg y Lolfa.

Ers 2021, mae sawl cyfres o seminarau ar-lein wedi archwilio cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llenyddiaeth, ein hanes a'n diwylliant fel Cymry Cymraeg. Mae'r gyfrol hon, *Gofal ein Gwinllan 4*, a olygwyd gan A. Cynfael Lake a D. Densil Morgan yn cynnwys traethodau penigamp sy'n cyd-fynd â'r seminarau.

Meddai'r Parch. Ganon Ddr Ainsley Griffiths, Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod gyda'r Eglwys yng Nghymru ac un o sylfaenwyr y gyfres o seminarau:

> Braf yw cael cyhoeddi'r bedwaredd gyfrol yma. Mae'r seminarau wedi bod yn brosiect sylweddol a dadlennol sydd wedi dwyn i'r golau nifer o gymeriadau a chyfraniadau a fu'n anhysbys i'r mwyafrif. Mae'r pedair cyfrol yn sicrhau cofnod ysgrifenedig parhaol o'r hyn a gyflwynwyd, gyda'r gobaith y bydd yr ysgolheictod clodwiw yn ysgogi mwy o ddiddordeb yn y maes hwn ac yn sbarduno ymchwilwyr y dyfodol.

Yn ei rhagair i'r gyfrol, dywed y Tra Pharchedig Ddr Manon Ceridwen James, Esgob Bangor:

> Yn ôl yr Athro Densil Morgan, mae'r Eglwys yng Nghymru yn ffynnu pan fydd yn cydnabod ac yn meithrin ei hunaniaeth Gymreig unigryw. Gobeithiaf, felly, bydd y gyfrol hon, ynghyd â'r holl gyfrolau eraill yn y gyfres a'r darlithoedd cysylltiedig, yn gymorth i ni ddathlu ac i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r hunaniaeth arbennig honno.

Yn y gyfrol hon, trafodir rhai o'r ffigyrau a fu'n cynnal Cymreictod yr Eglwys yng Nghymru o ganol teyrnasiad y Frenhines Fictoria hyd at ddegawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn eu plith ceir clerigwyr a lleygwyr, cerddorion a golygyddion, haneswyr ac ysgolheigion, Ucheleglwyswyr ac efengyleiddwyr, offeiriaid plwyf diwyd a rhai o ddeoniaid yr eglwysi cadeiriol ynghyd â dau esgob. Mae'r penodau'n dystiolaeth i'r bywiogrwydd a ddaeth i nodweddu Anglicaniaeth Cymru fwyfwy o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, a'r ymgyrch gynyddol gynhennus i ddatgysylltu a dadwaddoli'r pedair esgobaeth a'u gwahanu oddi wrth Eglwys Loegr yn gefnlen i'r cwbl.

Bydd y gyfres ar ei hyd wedi cynnwys 55 o benodau yn olrhain cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant, o adeg *Kynniver Llith a Ban*, sef cyfieithiad William Salesbury o lithiau'r Testament Newydd yn 1551, hyd at sefydlu'r Eglwys yng Nghymru fodern yn 1920. Rhwng y cwbl, mae'n gyfraniad sylweddol at ddeall a gwerthfawrogi traddodiad pwysig yn hanes y genedl.

Lansiwyd *Gofal ein Gwinllan 4* ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las gyda Dr Dewi Alter, y Barchedig Ganon Ddr Rosie Dymond a'r Parchedig Athro D. Densil Morgan yn cloriannu'r cyfraniad a wnaethpwyd drwy'r fenter hon ers ei dechreuad yn 2021.




**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru**
**ar 01745 817584**
**neu 07957 510346**
yn ystod oriau swyddfa
neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111**
am gyngor tu allan i oriau swyddfa.